Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

4 Ionawr 2017

Annwyl Gadeirydd

**Deiseb P-05-724 Hawliau i Ofal Iechyd Sylfaenol yn y Gymraeg**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr 2016 mewn perthynas â'r ddeiseb uchod, ac am y gwahoddiad i gyflwyno gwybodaeth neu sylwadau i'ch cynorthwyo wrth drafod y materion y codir yn y ddeiseb.

Fel rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol, cyflwynais adroddiad safonau mewn perthynas â'r sector iechyd at sylw Gweinidogion Cymru ar 29 Mai 2015. Fel rhan o'r adroddiad safonau hwnnw, cyflwynais y casgliad isod:

*Gan mai gofal sylfaenol yw cyswllt cyntaf mwyafrif aelodau'r cyhoedd gyda'r gwasanaeth iechyd, cred Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn hanfodol sicrhau cysondeb ymddygiad ieithyddol ar draws y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gofal sylfaenol fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg o dan yr un fframwaith statudol â'r sefydliadau iechyd a fu'n destun i'r ymchwiliad safonau hwn. Daw'r Comisiynydd felly i'r casgliad bod angen safonau ychwanegol er mwyn galluogi hyn i ddigwydd.*

Ymhellach i hynny, gallaf gadarnhau fy mod hefyd wedi ymateb i'r ymgynghoriad y cynhaliodd Llywodraeth Cymru ar reoliadau drafft i'r sector Iechyd rhwng Gorffennaf a Hydref y llynedd. Rwyf yn rhannu'r ymateb hwnnw â chi fel atodiad i'r llythyr hwn. Gobeithiaf fod yr uchod yn ddefnyddiol i chi wrth i chi drafod y ddeiseb uchod ymhellach.

**Comisiynydd y Gymraeg**
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.org

**Welsh Language Commissioner**
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Yr eiddoch yn gywir,

pp.

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg